Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Darlun o bosibilrwydd disglair

Mawrth 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**
X: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon:
## Darlun o bosibilrwydd disglair

Mawrth 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol** ........ **6**

**1. Cefndir** ........ **7**

**2. Ein canfyddiadau** ........ **9**

Canfyddiad 1: Pwysigrwydd y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ........ 9

Canfyddiad 2: Mae materion Brexit yn dod yn heriau mwy parhaol ........ 11

Canfyddiad 3: Mae cynnwys rhanddeiliaid yn fuddiol ........ 13

Canfyddiad 4: Rhaid i adnoddau ddilyn rhethreg ........ 16

Canfyddiad 5: Y dyfodol ........ 20

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.** ........ **23**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **24**

# Rhagair y Cadeirydd

Wrth i'r Chweched Senedd dynnu at ei therfyn, felly hefyd mae gwaith ein Pwyllgor. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi ailedrych ar elfen o'n gwaith rydym wedi dychwelyd ati dro ar ôl tro, sef y cysylltiadau rhwng Cymru â'n cymydog Celtaidd ar draws y môr, Iwerddon. Wrth edrych o'r newydd ar ein hadroddiad ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a gyhoeddwyd yn 2023, (*Archwilio hen berthynas mewn oes newydd*), a phenderfynu pa waith sydd eto i'w gwblhau wrth ymateb i'n hargymhellion, rydym nawr yn nodi pum prif ganfyddiad y credwn y dylent lywio'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd.

Unwaith eto, rydym wedi cael ein cyffwrdd gan ddyfnder y cysylltiadau sy'n rhwymo ein tiroedd a'n pobloedd: y "tapestri hanesyddol cyfoethog" hwnnw sydd wedi ein plethu gyda'n gilydd dros filoedd o flynyddoedd. Mae ein cenhedloedd, fel y nododd Philip King, sylfaenydd Other Voices,  yn lleoedd ac yn bobloedd ymylol neu "*edgy*", yn byw fel yr ydym ar gyrion cyfandir. Ond ni ddylai ein daearyddiaeth byth fod yn rhwystr: yn hytrach, cawsom ein hannog gan dystion a'r rhai y gwnaethom gyfarfod â nhw i edrych ar y môr sydd rhyngom nid fel rhwystr, ond fel priffordd, ac efallai i ddysgu'r wers o un o chwedlau'r Mabinogi, *Branwen* - bod yn rhaid i'r rhai sy'n arwain fod yn bont rhwng cenhedloedd hefyd.

Wrth gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid, clywsom straeon am lawysgrifau a gollwyd ac a ddarganfuwyd; am gasgliadau a hanes cenedlaethol; am Heaney; am Yeats; am Thomas. Mewn llawer o leoedd, barddoniaeth ynddi hi ei hun oedd y dystiolaeth a glywsom. Ond yr hyn a oedd fwyaf amlwg oedd y cyfleoedd gwych i gydweithio yn y dyfodol: y darlun hwnnw o bosibilrwydd disglair y soniodd Philip King amdano. Er y llychwino a'r clwyfau a adawyd ar ein cenhedloedd gan feichiau Brexit a rhwystrau masnach, does dim angen i'r darlun hwn fod yn "ddrych toredig" Ulysses Joyce. Yn hytrach, y portread o artistiaid a busnesau, o academyddion ac ieithyddion yn cydweithio ac yn goresgyn rhwystrau cyffredin yw'r hyn sy'n rhoi gobaith i ni ar gyfer dyfodol ein cenhedloedd.

Efallai fod ein harchwiliadau yn y maes hwn wedi dod i ben, ond rydym yn apelio ar i bwyllgor Senedd yn y dyfodol barhau â'r gwaith rydym wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod statws arbennig y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yn parhau, a bod ein canfyddiadau'n canfod llais newydd.

A fo ben, bid bont!

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol barhau i sicrhau bod cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn flaenoriaeth o ran ei chysylltiadau rhyngwladol, drwy ailymrwymo i Ddatganiad ar y Cyd 2030 a thrwy ymgorffori ein canfyddiadau. ........ Tudalen 10

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol flaenoriaethu a chodi proffil y berthynas newydd â'r UE, fel y mae'n ymwneud â diwylliant a gwaith creadigol, gan gynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i ddod o hyd i atebion ar y cyd â'r UE ar artistiaid teithiol a chyfranogiad yn rhaglenni'r UE. ........ Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys rhanddeiliaid yn y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys drwy ddatblygu cyfleoedd ystyrlon iddynt gyfrannu at gyflawni Datganiad ar y Cyd 2030. ........ Tudalen 16

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddyrannu'n flynyddol ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys i warantu y bydd Datganiad ar y Cyd 2030 yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Dylai Pwyllgor Senedd yn y dyfodol barhau â'r gwaith rydym wedi'i wneud ar y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon er mwyn sicrhau bod statws arbennig y berthynas yn parhau a bod ein canfyddiadau'n cael eu rhoi ar waith. ........ Tudalen 21

# 1. Cefndir

**1.** Rydym wedi dilyn y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn agos yn ystod y Chweched Senedd fel rhan o'r gwaith ehangach rydym wedi'i wneud ar gysylltiadau rhyngwladol. Mae cydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon yn cwmpasu cysylltiadau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd sydd wedi'u hymwreiddio mewn perthynas hanesyddol ac sy'n cael eu hadlewyrchu mewn cydweithrediad ffurfiol rhwng llywodraethau.

**2.** Cafodd perthynas ryngwladol fwyaf datblygedig Llywodraeth Cymru ei hymgorffori mewn cytundeb rhyngwladol â Llywodraeth Iwerddon yn 2021, sef Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-2025.[1]

**3.** Arweiniodd yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2022-23 at ein hadroddiad, *Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd.*[2] Aeth yr adroddiad ati i asesu effeithiolrwydd ymagwedd Llywodraeth Cymru, gan ddod o hyd i lawer o enghreifftiau cadarnhaol o gydweithredu, yn ogystal ag ewyllys da, angerdd a brwdfrydedd sylweddol. Fe wnaethom argymell y dylid gwella'r cydgysylltu, y gwelededd a'r adnoddau ar gyfer y gwaith hwn, gan obeithio y byddai canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu hadlewyrchu mewn cytundebau dwyochrog yn y dyfodol ac yn y cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025. Roeddem yn gobeithio y byddai'r adroddiad yn:

> *"[…] nodi dechrau'r broses o daflu mwy o oleuni ar y bennod bwysig hon yn hanes y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ac ar stori ryngwladol Cymru ei hun."*[3]

**4.** Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rydym wedi ailedrych ar ein hymchwiliad gwreiddiol yn sgil adnewyddu'r cytundeb rhyngwladol, Datganiad ar y Cyd 2030, yn 2025.[4]

[1] Llywodraeth Cymru, datganiad i'r wasg, Iwerddon a Chymru yn lansio Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025, Mawrth 2021
[2] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023
[3] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023, tudalen 10
[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad ar y cyd Iwerddon-Cymru 2030, Gorffennaf 2025

**5.** Nod y gwaith dilynol hwn oedd deall y datblygiadau sydd wedi'u gweld o ran y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ers cyhoeddi ein hadroddiad a sut mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi'u hadlewyrchu. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y Chweched Senedd, roeddem hefyd yn awyddus i edrych ymlaen at gydweithio rhwng y ddwy genedl yn y dyfodol.

**6.** Ni wnaeth y Prif Weinidog fynychu ein sesiynau tystiolaeth lafar ac, yn lle hynny, rhoddodd ymateb ysgrifenedig i'n cwestiynau.[5] Roedd Llywodraeth Iwerddon yn bresennol ac fe'i cynrychiolwyd gan Gonswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd, Denise McQuade.

[5] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026

# 2. Ein canfyddiadau

## Canfyddiad 1: Pwysigrwydd y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon

**7.** Y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yw'r berthynas ryngwladol strategol fwyaf datblygedig rhwng Llywodraeth Cymru a gwlad arall o hyd. Ysgrifennodd y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2025 mai "Iwerddon yw un o'n blaenoriaethau uchaf o ran partneriaethau rhyngwladol"[6]. Disgrifiodd Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd, Denise McQuade, berthynas fwyfwy agos rhwng y ddwy wlad gydag ymgysylltiad gwleidyddol a swyddogol cryfach a dyfnach.[7] Dywedodd:

> *"[…] the real value of having the shared statement was that it expressed the very clear shared wish of both Governments for the closest and deepest possible relationship between Wales and Ireland."*[8]

**8.** Adlewyrchwyd hyn yn Natganiad ar y Cyd 2030, a ddisgrifiwyd gan y Tánaiste a'r Prif Weinidog fel "fframwaith sy'n edrych tua'r dyfodol, yn canolbwyntio ar weithredu ac sy'n rhoi cyfeiriad i'n cydweithrediad hyd at ddiwedd y degawd"[9].

**9.** Roedd y tystion yn unfrydol bod cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn cynrychioli perthynas ystyrlon, werthfawr a deinamig a rhan bwysig o'u gwaith. Clywsom enghreifftiau trawiadol o gydweithio ar draws ein celfyddydau, darlledwyr, llyfrgelloedd cenedlaethol, amgueddfeydd, archifau a mwy.

**10.** Dywedodd Amgueddfa Cymru fod Iwerddon wedi bod yn un o'n partneriaethau rhyngwladol strategol pwysicaf yn hanesyddol, a bod hynny'n wir o hyd.[10] Disgrifiwyd y Datganiad ar y Cyd gan Philip King fel y ddogfen fframwaith

[6] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog - 8 Rhagfyr 2025
[7] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 5
[8] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 24
[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad ar y cyd Iwerddon-Cymru 2030 - Gorffennaf 2025, paragraff 3
[10] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 174

arweiniol ar y ffordd orau i ni ryngweithio ac ymgysylltu â'n gilydd ar ochr Cymru ac Iwerddon.[11]

**11.** Unwaith eto, nododd comisiynwyr iaith y ddwy wlad fod cydweithrediad a chydweithio o ran iaith yn elfen bwysig o'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Disgrifiodd An Comisinéir Teanga, Comisiynydd Iaith Iwerddon, sut mae ef a Chomisiynydd y Gymraeg yn unedig yn eu hymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo hawliau iaith.[12] Clywsom hefyd am y gwaith ysbrydoledig sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc drwy'r bartneriaeth rhwng Urdd Gobaith Cymru a Coláiste Lurgan yn Iwerddon, sydd wedi ymgysylltu â mwy na mil o bobl ifanc.[13]

**12.** Mae cydweithredu bellach yn digwydd ochr yn ochr â threfniadau newydd rhwng y DU ac Iwerddon, a godwyd yn rhagweithiol gan dystion fel rhai cadarnhaol, defnyddiol a buddiol. Roedd y deinameg newydd bwysig hon yn amlwg ym mhob un o'r themâu a godwyd yn yr adroddiad hwn. Ysgrifennodd y Prif Weinidog:

> *"Bydd y berthynas agosach rhwng Iwerddon a'r DU o fudd i Gymru mewn meysydd megis ynni adnewyddadwy. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng y DU ac Iwerddon ar ynni wedi galluogi Cymru i fod yn rhan o'r trafodaethau hyn a chyfrannu at feysydd ar gyfer cydweithio ynghylch ynni ar y môr. Ar ben hynny, bydd gan Gymru gyfle i gyfrannu at Uwchgynhadledd Iwerddon a'r DU yn 2026 a gynhelir yn chwarter cyntaf eleni."*[14]

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol barhau i sicrhau bod cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn flaenoriaeth o ran ei chysylltiadau rhyngwladol, drwy ailymrwymo i Ddatganiad ar y Cyd 2030 a thrwy ymgorffori ein canfyddiadau.

[11] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 34
[12] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 92
[13] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 255
[14] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog - 27 Ionawr 2026, tudalen 3

## Canfyddiad 2: Mae materion Brexit yn dod yn heriau mwy parhaol

**13.** Yn 2023, gwnaethom adrodd bod ymadawiad y DU â'r UE wedi newid y cydweithio sy'n digwydd yn sylweddol, gan gynnwys oherwydd colli cyllid yr UE.[15] Roedd y ffaith bod Brexit wedi gorfodi ffocws o'r newydd ar berthnasoedd er mwyn cynnal eu cysylltiadau unigryw yn amlwg eto ymhlith tystion. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ac wedi ein digalonni gan yr effeithiau andwyol yr oedd yn dal i'w cael, yn enwedig o ran gwaith trawsffiniol, teithio a cholli Ewrop Greadigol. Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"[...] nothing has moved on [...] challenges that were flagged previously still remain. We haven't uncovered anything new, but it would be great to be able to address some of what are now becoming longer standing challenges."*[16]

**14.** Dywedodd Bectu wrthym fod ei aelodau yn parhau i gael eu cyfyngu a'u rhwystro gan ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, sydd wedi creu ystod o heriau logistaidd, ariannol a biwrocrataidd i weithio ar draws eu gwledydd.[17]

**15.** Adroddodd Undeb y Cerddorion fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr ymholiadau gan aelodau ynghylch gweithio yn yr UE. Gallai hyn, meddai, olygu naill ai eu bod nhw wedi gweithio hynny allan i ryw raddau a'u bod yn gwybod beth i'w wneud, neu eu bod nhw'n talu pobl i weithio hynny allan drostyn nhw, neu nad yw pobl yn gwneud hynny o gwbl.[18]

**16.** Siaradodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am ei siom fod cyfranogiad y DU yn Ewrop Greadigol yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei ddadflaenoriaethu, o safbwynt y DU.[19] Mae wedi ymuno â dros 200 o sefydliadau i lansio Fforwm newydd ar Gysylltiadau Diwylliannol a Chyfryngau rhwng yr UE a'r DU i gydweithio

---

[15] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023, paragraff 21
[16] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 196
[17] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 44
[18] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 46
[19] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 51

ar y materion hyn.[20] Disgrifiodd hefyd raglen beilot newydd Cyfle Symudedd Gogledd Ewrop (NEMO) ar gyfer cyfnewid artistig fel un:

> *"[...] rili pwysig, sef cynghorau celfyddydau o'r Baltig a Sgandinafia, Prydain ac Iwerddon. Mae o wedi arwain at greu cronfa cyfle symudedd gogledd Ewrop, sy'n cael ei wireddu gan y Nordic Culture Fund."*[21]

**17.** Mae'r materion hyn yn rhan o'r gwaith parhaus rydym yn ei wneud ar ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r UE. Yn ein hadroddiad *Sioc Ddiwylliannol*, a gyhoeddwyd yn 2024, gwnaethom alw ar i Lywodraeth Cymru gynnal deialog â Llywodraeth Iwerddon ar fater Brexit/artistiaid sy'n teithio ac ystyried y cymorth ychwanegol a allai gael ei ddarparu wrth aros am ateb wedi'i arwain gan y DU a'r UE.[22] Derbyniwyd hyn a dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio y bydd y Datganiad ar y Cyd newydd "yn sail i drafodaethau"[23]. Fodd bynnag, nid yw'r mater wedi'i restru yn y cytundeb newydd.

**18.** Yn ei llythyr atom, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid yr effeithir arnynt. Bu swyddogion yn Nulyn cyfarfod â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ym mis Ionawr 2025 i drafod y Datganiad ar y Cyd newydd a byddant yn cwrdd â nhw eto ddiwedd y mis."*[24]

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol flaenoriaethu a chodi proffil y berthynas newydd â'r UE, fel y mae'n ymwneud â diwylliant a gwaith creadigol, gan gynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i ddod o hyd i atebion ar y cyd â'r UE ar artistiaid teithiol a chyfranogiad yn rhaglenni'r UE.

---

[20] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 51
[21] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 26
[22] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd, Tachwedd 2024, argymhelliad 14
[23] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor: Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd, Rhagfyr 2024, argymhelliad 14
[24] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026, tudalen 3

## Canfyddiad 3: Mae cynnwys rhanddeiliaid yn fuddiol

**19.** Gofynnodd ein hadroddiad yn 2023 gwestiynau pwysig i Lywodraeth Cymru am y camau yr oedd wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o'i strategaethau Cymru-Iwerddon ymhlith rhanddeiliaid. Gwnaethom hefyd nifer o argymhellion a gynlluniwyd i wella gwybodaeth, gwelededd a thryloywder i gynorthwyo'r Senedd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddeall y gweithgarwch rhwng Cymru ac Iwerddon yn well.[25] Byddai hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnal cysylltiadau a gwneud y gorau o gyfleoedd sy'n deillio o gydweithredu trawsffiniol.

**20.** Wrth nodi uchelgais gyffredin y llywodraethau, mae Datganiad ar y Cyd 2030 yn enwi meysydd penodol o gydweithredu a rhanddeiliaid sy'n rhan o'i gyflawni.[26] Mae hyn yn defnyddio'r un dull â'r Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-2025 gwreiddiol ond mae'r rhanddeiliaid a restrir yn wahanol.[27] Er enghraifft, nid yw sefydliadau llenyddol, Poetry Ireland, Canolfan Ysgrifennu Iwerddon, Llenyddiaeth Cymru ac Academi wedi'u henwi mwyach. Fel y cyfryw, roedd canfyddiad ymhlith rhai tystion y gallai hyn awgrymu bod ailflaenoriaethu yn digwydd.

**21.** Roeddem eisiau archwilio sut roedd y llywodraethau'n cymryd penderfyniadau yn hyn o beth ac yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adnewyddu, gan gynnwys y rhai a enwir yn Natganiad ar y Cyd 2030? Eglurodd y Prif Weinidog:

> *"Ar gyfer Datganiad 2030, rydym wedi diweddaru ein dull o gydweithio i wella hyblygrwydd a'n gallu i addasu ar gyfer newid; felly, rydym wedi symud oddi wrth enwi rhanddeiliaid. Nod y newid hwn yw galluogi cydweithio gwahanol ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau, fel rydym wedi'i wneud yn y gorffennol fel rhan o'n dull Tîm Cymru o weithredu, yn hytrach na chyfyngu cydweithio i restr ddiffiniedig o enwau."*[28]

**22.** Roedd enghreifftiau o berthnasoedd cadarnhaol â Llywodraeth Cymru, a disgrifiodd llawer o sefydliadau berthnasoedd ag unigolion ac adrannau penodol

[25] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023, argymhellion 4, 5, 6 a 7
[26] Llywodraeth Cymru, Datganiad ar y cyd Iwerddon-Cymru 2030, Gorffennaf 2025, Cyflwyniad
[27] Llywodraeth Cymru, Iwerddon a Chymru yn lansio Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025, Mawrth 2021
[28] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026, tudalen 2

o'r llywodraeth. Mae swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn yn amlwg yn bwynt cyswllt gwerthfawr.[29]

**23.** Yn anffodus, clywsom fod cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses adnewyddu wedi bod yn wael ac nad oeddent wedi cymryd rhan o gwbl weithiau, hyd yn oed ymhlith y rhai a enwir yn Natganiad ar y Cyd 2030.[30] Er i un tyst nodi nad oedd wedi disgwyl y byddai'n chwarae rhan, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid nad oeddent wedi chwarae rhan wedi synnu nad oeddent wedi bod yn rhan ohono a gwnaethant fynegi awydd i fod yn rhan o'r broses gyflawni yn y dyfodol.[31] Ysgrifennodd y Prif Weinidog:

> *"Cytundeb rhwng llywodraethau yw hwn, a byddai'n well gan Lywodraeth Iwerddon beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i'r drafft ymysg partneriaid allanol gan ei bod am neilltuo cymaint o amser â phosibl i'w gyflawni. Roedd y penderfyniad hwn yn cyd-fynd â dull gweithredu blaenorol Llywodraeth Iwerddon, ac felly roedd yr ymgynghoriad allanol ar yr union eiriad yn gyfyngedig.*
>
> *Bu Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn ymwneud yn fewnol ag arweinwyr polisi perthnasol ar draws pob thema, gan gynnwys meysydd megis diwylliant, ynni, arloesedd a chwaraeon, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys yr Urdd a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Cysylltodd swyddogion â grŵp ehangach o randdeiliaid a phartneriaid posibl i gyflawni datganiad 2030."*[32]

**24.** Dywedodd Amgueddfa Cymru, sydd wedi'i henwi, wrthym nad oedd yn ymwybodol o'r Datganiad ar y Cyd newydd nes i Lywodraeth Cymru gysylltu â hi i gynnal ei lansiad. Doedd cynrychiolwyr o Lyfrgell Genedlaethol Cymru (a enwir), Bectu ac Undeb y Cerddorion (ni enwir) ddim yn ymwybodol ohono ychwaith.[33]

---

[29] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 431
[30] Er enghraifft, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 95, 99 a 190

[31] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 139
[32] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026, tudalen 2
[33] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 95, 99 a 371

Yn yr un modd, ymddengys mai ychydig iawn o fewnbwn gafodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (a enwir).[34]

**25.** Teimlai'r rhanddeiliaid a enwyd y gallent chwarae mwy o ran. Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"We, as cultural bodies, and specifically us as the amgueddfa, can do so much for Wales around soft power. And if we could be engaging with wider teams in Welsh Government, with trade and investment, the economy et cetera, there are things that we could do to open up doors that have much wider benefits for Wales, beyond purely culture."*[35]

**26.** Ni chafodd eraill eu henwi o gwbl. Yn eu plith roedd y comisiynwyr iaith, er gwaethaf y ffaith i ni argymell, yn 2023, eu bod yn cael eu cynnwys yn y dyfodol.[36] Clywodd y Pwyllgor, er bod croeso i'r ffaith bod y Datganiad ar y Cyd yn cyfeirio at bwysigrwydd cydweithio ar iaith, fod hyn yn cyferbynnu'n llwyr â chyrff penodol eraill a enwir. Rydym yn cytuno â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg bod "[m]udiadau penodol lle byddai modd wedi bod i gyfeirio at eu gwaith nhw, a fyddai o bosib wedi annog rhagor o gydweithio hefyd"[37].

**27.** Enwyd Urdd Gobaith Cymru yn y datganiad gwreiddiol ond nid yn Natganiad ar y Cyd 2030. Mewn tystiolaeth, cyfeiriodd at ei berthynas gref â thimau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a chroesawodd Datganiad ar y Cyd 2030, ond eglurodd nad oedd wedi rhoi "mewnbwn uniongyrchol at ffurfio'r datganiad"[38]. Wrth fyfyrio ar hyn, dywedodd wrthym:

> *"[...] roeddwn i'n synnu doedden ni ddim wedi cael ein henwi, achos mae e'n broject reit unigryw rhwng pobl ifanc yn y datganiad. Yn yr*

[34] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025 paragraffau 66 - 68
[35] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 187
[36] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023, argymhelliad 5
[37] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 133
[38] Urdd Gobaith Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig - Tachwedd 2025, tudalen 1

> *hen ddatganiad, cynt, mi oedd yr Urdd wedi'i enwi, ac roeddem ni'n falch o sicrhau bod ni'n rhan o hwnnw."*[39]

**28.** Er bod y cyfle i gynnwys ac enwi rhai rhanddeiliaid allweddol yn Natganiad ar y Cyd 2030 wedi'i golli, mae yna gyfle o hyd i'w cynnwys yn y broses gyflawni. Roedd nifer o randdeiliaid yn gobeithio y byddent yn cymryd rhan yn y dyfodol ac mae'n hanfodol nad yw'r cyfle hwn yn cael ei golli.[40] Rydym yn pwyso am i gyfleoedd ystyrlon gael eu darparu i randdeiliaid gael eu cynnwys yn y broses gyflawni, gan gynnwys mewn cyfarfodydd cynllunio.

**29.** Dangoswyd ymhellach bwysigrwydd llywodraethau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y ffordd bositif yr adroddwyd am gyfarfod blynyddol diweddar sefydliadau diwylliannol y DU ac Iwerddon yn Nulyn, a drefnwyd gan Lywodraeth y DU. Clywsom fod hyn yn sbarduno cyfleoedd ar gyfer cydweithio, rhaglennu a mentrau ar y cyd a throsglwyddo sgiliau. Bydd Amgueddfa Cymru yn datblygu cynigion ariannu ar gyfer prosiectau penodol drwy Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon.[41] Roedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r digwyddiad, ac yn annog mwy o ffocws ar sector y celfyddydau.[42] Synnwyd y Pwyllgor o glywed nad oedd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y digwyddiad pwysig hwn, a fynychwyd gan nifer da o sefydliadau o Gymru.[43]

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys rhanddeiliaid yn y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys drwy ddatblygu cyfleoedd ystyrlon iddynt gyfrannu at gyflawni Datganiad ar y Cyd 2030.

## Canfyddiad 4: Rhaid i adnoddau ddilyn rhethreg

**30.** Yn adroddiad Cymru-Iwerddon yn 2023, gwnaethom argymell y dylai llywodraethau Cymru ac Iwerddon ymrwymo cyllid i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n gymesur â'u huchelgais y tu hwnt i 2025 yn ddi-oed, i roi

[39] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 290
[40] Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 139
[41] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 176
[42] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 76
[43] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 78

sicrwydd i randdeiliaid ac i sicrhau y bydd cyn lleied o gostau cyfleoedd â phosibl.[44]

**31.** Er i Lywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, clywsom dystiolaeth newydd bod cyllid yn parhau i fod yn rhwystr allweddol.[45] Mae cyllid, y nododd y Conswl Cyffredinol yn 2023 ei fod bob amser yn her a bod yn rhaid bod mor greadigol â phosibl,[46] yn parhau i fod yn dameidiog ac yn sectoraidd. Yn ddiweddarach, nododd y Conswl Cyffredinol nad oedd ffordd hawdd o sefydlu un mecanwaith ariannu ar y cyd.[47]

**32.** Fodd bynnag, mae Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn golofn allweddol. Rhoddodd y Prif Weinidog ddiweddariad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon:

> *"Bydd Cymru Ystwyth yn lansio rownd newydd o gyllid sbarduno cyn diwedd mis Mawrth a bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gymryd rôl arweiniol yn y prosiect Datblygu Cydweithrediad Môr Iwerddon a ariennir gan PEACEPLUS, gan gynnwys digwyddiadau i randdeiliaid pedair gwlad yn yr Alban ac Iwerddon yn hanner cyntaf 2026.. […]*
>
> *Mae gan swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon gyllideb gweithgarwch gyffredinol o £50,000 wedi'i dyrannu ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn ariannu'r holl ddarpariaeth a wneir gan y swyddfa, gan gynnwys gweithgarwch sy'n ymwneud â chyflawni'r Datganiad ar y Cyd a chymorth ar gyfer masnach a buddsoddi.*
>
> *Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi neilltuo dros hanner miliwn o bunnoedd i gefnogi cydweithredu yn rhanbarth Môr Iwerddon drwy Cymru Ystwyth, gyda £200,000 o'r swm hwnnw ar gael yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd Cymru*

[44] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023 argymhelliad 16
[45] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon Archwilio hen berthynas mewn oes newydd - Hydref 2023, argymhelliad 16
[46] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 30 Mawrth 2023, paragraff 183
[47] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Rhagfyr 2025, paragraff 40

*Ystwyth yn lansio rownd newydd o gyllid sbarduno cyn diwedd mis Mawrth.*

*Mae tîm Arloesi Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at gyllid Cynghrair Ymchwil Iwerddon / Prifysgolion Cymru sy'n dod i gyfanswm o £0.5m. Mae cyllid wedi ei ddyrannu i gefnogi wyth prosiect sydd â phartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon. […]*

*Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni'r Datganiad ar y Cyd yw £68,500. Mae gweithgarwch ychwanegol a ariennir o gyllideb gweithgarwch Swyddfa Dulyn, y gyllideb masnach a buddsoddi, a'r gyllideb digwyddiadau mawr hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r Datganiad ar y Cyd."*[48]

**33.** Mewn adroddiad newydd, y tynnodd ein sylw ato, mae'r British Council yn disgrifio cymorth Llywodraeth Cymru fel lefel sylweddol o fuddsoddiad.[49]

**34.** Trwy ein gwaith dilynol, clywsom fod Llywodraeth Iwerddon wedi cytuno ar fecanwaith cydweithredu ffurfiol i ddarparu arian sy'n cyfateb i arian Cymru Ystwyth drwy gyllid presennol yn adrannau perthnasol o'r llywodraeth.[50] Clywsom hefyd am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i brosiectau penodol, er enghraifft ar gyfer cynhyrchu fideos cerddoriaeth yn Gymraeg a Gwyddeleg rhwng Coláiste Lurgan a'r Urdd, a ddywedodd wrthym: "mae wedi bod yn bosibl, trwy gefnogaeth y Llywodraeth, i ni allu gwneud hwnna"[51].

**35.** O ran colli cyllid yr UE, eglurodd y Llyfrgell Genedlaethol:

> *"[…] mae colli'r cyfle o ran cyllid Ewropeaidd yn ergyd. Mae hynny'n amlwg. Mi oedd prosiectau wedi digwydd yn y llyfrgell diolch i arian Ewropeaidd, a dydy'r drws hwnnw ddim ar agor i ni nawr."*[52]

---

[48] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026, tudalennau 3 a 4
[49] British Council: Cultural Mobility and Connection: Ireland and the four nations of the UK (Saesneg yn unig), Tachwedd 2025
[50] British Council: Cultural Mobility and Connection: Ireland and the four nations of the UK (Saesneg yn unig), Tachwedd 2025, tudalen 29
[51] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 256
[52] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 366

**36.** Mae diwedd rhaglen INTERREG yr UE wedi cael ei grybwyll dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith Cymru-Iwerddon, gyda'r Conswl Cyffredinol yn crynhoi yn 2023 ei bod yn rhaglen gwerth €100 miliwn, ac nad oes gan Iwerddon na Chymru €100 miliwn ar ein pennau ein hunain at y diben hwnnw.[53]

**37.** Fel rhan o'r cydweithredu rhwng y DU ac Iwerddon, mae Llywodraeth Iwerddon wedi cyfrannu €6 miliwn o gyllid a fydd yn galluogi cyrff allweddol yng Nghymru fel Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol i gyflwyno cynigion ar y cyd â'u cymheiriaid yn Iwerddon. Clywsom nad yw Llywodraeth y DU yn darparu cyllid yn y ffordd hon.[54] Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"[...]it feels a bit awkward when you're in the room and all of the money is coming from one side."*[55]

**38.** Gwnaethom hefyd dderbyn tystiolaeth newydd ynghylch colli rhwydweithiau'r UE, a oedd yn thema allweddol yn ein hymchwiliad gwreiddiol yn 2023 a'n hadroddiad Sioc Ddiwylliannol. Unwaith eto, clywsom fod cydweithredu yn aml yn seiliedig ar rwydweithiau personol ac ewyllys da.[56] Thema allweddol yn ein hadroddiad yn 2023 oedd bod angen gwaith i sicrhau bod cysylltiadau yn y dyfodol yn dibynnu ar fwy na siawns yn unig.[57]

**39.** Ailbwysleisiodd tystion y cyfraniad economaidd y mae diwylliant yn ei wneud a'r angen i'w weld trwy lens economaidd. Clywsom eto am yr effaith economaidd drawiadol a'r enillion ar fuddsoddiad yn y celfyddydau, gydag enillion o £2.51 am bob £1 a gaiff ei gwario.[58]

---

[53] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 30 Mawrth 2023, paragraff 165
[54] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 198-200
[55] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 200
[56] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 209
[57] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023, tudalen 5
[58] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 93

**40.** Bathodd Philip King yr ymadrodd, "lle mae diwylliant yn arwain, mae masnach yn dilyn" yn ein hymchwiliad gwreiddiol yn 2023, ac rydym yn ailadrodd y farn honno eto yma.[59]

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddyrannu'n flynyddol ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys i warantu y bydd Datganiad ar y Cyd 2030 yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

## Canfyddiad 5: Y dyfodol

**41.** Roedd pob un o'r tystion yn gadarnhaol ynghylch dyfodol y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. Dywedodd Philip King mai dyddiau cynnar ydyn nhw o hyd, ond bod yna ymdeimlad bod cymaint mwy y gall y naill a'r llall ei wneud gyda'i gilydd"[60]. Soniodd y Conswl Cyffredinol am botensial enfawr yn y tri maes ynni, addysg ac arloesedd ymchwil ac ieithoedd.[61]

**42.** Rydym yn cytuno ag Amgueddfa Cymru, a ddywedodd:

> *"Wales-Ireland is probably the biggest international opportunity we've got. So, as they say, go big or go home. I would take it to a whole new level."*[62]

**43.** Rhoddodd yr enghraifft ganlynol:

> *"Just look at what we did with Wales and France. We just exchanged one item each. We took Renoir's Blue Lady to the Musée d'Orsay, and we got a Van Gogh back [...] That was one painting. Imagine, if we had a whole programme at that level with Ireland, what it could do and what it could open up."*[63]

[59] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023, tudalen 5
[60] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 83
[61] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 74
[62] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 229
[63] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025 paragraff 231

**44.** Yn yr un modd, roeddem yn gyffrous ynghylch y posibiliadau a gyflwynir gan waith y Llyfrgell Genedlaethol wrth geisio dwyn ynghyd, am y tro cyntaf ers dros fil o flynyddoedd, lawysgrifau'r 11eg ganrif o sgriptoriwm Llanbadarn, a grëwyd wrth i'r Normaniaid gyrraedd Cymru am y tro cyntaf.[64]

**45.** Gwnaeth Cyngor y Celfyddydau annog pawb i beidio â "cholli golwg ar y darlun mawr" a chyfeiriodd at lywyddiaeth Iwerddon o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd sydd ar ddod, ochr yn ochr ag eraill.[65] O ran effeithiau cysylltiadau agosach rhwng y DU a'r UE ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson am gysylltiad agosach â'r UE ac wedi croesawu'r cyhoeddiad o'r Gyd ddealltwriaeth. Mae trafodaethau rhwng y DU a'r UE bellach yn mynd rhagddynt ynghylch sut beth fydd y berthynas newydd honno yn y pen draw, ac rydym yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli. Gyda'r cyhoeddiad diweddar bod y DU yn ailymuno ag ERASMUS+, mae'r disgwyliadau o fwy o gydweithio yn obeithiol.*
>
> *O ran Iwerddon yn benodol, mae'r trafodaethau [ar ail-osod y berthynas rhwng y DU a'r UE] ym mis Mai 2025 yn sicr wedi helpu i gynyddu'r awydd am gydweithredu ar ochr Iwerddon ac wedi helpu i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid yr UE. Er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd, mae arwyddion o gynnydd addawol o ran gwella'r cysylltiadau rhwng rhwydwaith pwyntiau cyswllt Horizon Ewrop Iwerddon a rhwydweithiau pwyntiau cyswllt Horizon Ewrop Cymru/y DU, fel yr ymrwymir iddo yn y Datganiad. Bydd perthynas gryfach o fudd i sectorau allweddol megis ynni ar y môr ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd wrth i brosiectau symud ymlaen o gydsynio i gynhyrchu."*[66]

**Argymhelliad 5.** Dylai Pwyllgor Senedd yn y dyfodol barhau â'r gwaith rydym wedi'i wneud ar y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon er mwyn sicrhau bod

---

[64] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 194
[65] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 4 Rhagfyr 2025, paragraff 194
[66] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog – 27 Ionawr 2026, tudalen 3

statws arbennig y berthynas yn parhau a bod ein canfyddiadau'n cael eu rhoi ar waith.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **4 Rhagfyr 2025** | **Dafydd Rhys, Prif Weithredwr,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Eluned Hâf, Pennaeth,**<br>Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>**Andy Warnock, Cydlynydd Rhanbarthol,**<br>Undeb y Cerddorion - Cangen Cymru<br>**Carwyn Donovan, Swyddog Trafodaethau Cymru,**<br>Bectu<br>**Philip King, Cyd-sylfaenydd,**<br>Other Voices<br>**Jane Richardson, Prif Weithredwr,**<br>Amgueddfa Cymru<br>**Siân Lewis, Prif Weithredwr,**<br>Urdd Gobaith Cymru<br>**Micheál Ó Foighil, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Coláiste Lurgan<br>**Rhodri Llwyd Morgan, Prif Weithredwr,**<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>**Dr Maredudd ap Huw, Pennaeth Adran Archifau a Llawysgrifau,**<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **10 Rhagfyr 2025** | **Denise McQuade, Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd,**<br>Conswliaeth Gyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd<br>**Séamas Ó Concheanainn, Coimisinéir Teanga,**<br>Comisiynydd Iaith Iwerddon<br>**Lowri Williams, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| **Teitl** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Urdd Gobaith Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig | 24 Tachwedd 2025 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig | 24 Tachwedd 2025 |
| Comisiynydd Teanga, Tystiolaeth ysgrifenedig | 28 Tachwedd 2025 |
| Comisiynydd y Gymraeg, Tystiolaeth ysgrifenedig | 28 Tachwedd 2025 |
| Conswliaeth Gyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd, Tystiolaeth ysgrifenedig | 1 Rhagfyr 2025 |
| Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog | 8 Rhagfyr 2025 |
| Cyngor Prydeinig, Adroddiad: Cultural Mobility and Connection: Ireland and the four nations of the UK | 9 Rhagfyr 2025 |
| Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Prif Weinidog | 27 Ionawr 2026 |